



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2001 Rhif 3680 (Cy.301)

2001 No. 3680 (W.301)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

AGRICULTURE, WALES

**Rheoliadau Dileu'r Bwrdd
Ymyrraeth ar gyfer Cynnyrch
Amaethyddol (Darpariaethau
Canlyniadol) (Cymru) 2001**

**The Abolition of the Intervention
Board for Agricultural Produce
(Consequential Provisions)(Wales)
Regulations 2001**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i is-ddeddfwriaeth sy'n gymwys i Gymru (ac i ddaliadau amaethyddol sy'n cael eu gweinyddu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol")), o ganlyniad i ddileu'r Bwrdd Ymyrraeth ar gyfer Cynnyrch Amaethyddol ("y Bwrdd") a throsglwyddo'r cyfrifoldeb am swyddogaethau penodol a oedd yn cael eu harfer gan y Bwrdd o'r blaen i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Yn benodol, mae'r rheoliadau'n diwygio Rheoliadau Cynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Modwleiddio) (Cymru) 2000, Rheoliadau Llaeth Ysgol (Cymru) 2001 a Rheoliadau'r Premiwm Cigydda (Cymru) 2001, ac, ymhlith pethau eraill, yn darparu ar gyfer disodli cyfeiriadau at y Bwrdd yn y rhain â chyfeiriadau at y Cynulliad Cenedlaethol.

Roedd dileu'r Bwrdd Ymyrraeth yn effeithiol ar 15 Tachwedd 2001 ac felly daeth y Rheoliadau hyn i rym ar y dyddiad hwnnw yn unol â Rheoliad 1(1).

These regulations make amendments to secondary legislation extending to Wales (and to agricultural holdings administered by the National Assembly for Wales ("the National Assembly")), in consequence of the abolition of the Intervention Board for Agricultural Produce ("the Board") and the transfer, to the National Assembly, of responsibility for certain functions previously exercised by the Board.

In particular, the regulations amend the Common Agricultural Policy Support Schemes (Modulation)(Wales) Regulations 2000, the School Milk (Wales) Regulations 2001 and the Slaughter Premium (Wales) Regulations 2001, and, amongst other things, provide for the references to the Board therein to be replaced with references to the National Assembly.

The abolition of the Intervention Board took effect on 15th November 2001 and these Regulations therefore came into force on that date in accordance with Regulation 1(1).

2001 Rhif 3680 (Cy.301)**2001 No. 3680 (W.301)****AMAETHYDDIAETH, CYMRU****AGRICULTURE, WALES****Rheoliadau Dileu'r Bwrdd
Ymyrraeth ar gyfer Cynnyrch
Amaethyddol (Darpariaethau
Canlyniadol) (Cymru) 2001****The Abolition of the Intervention
Board for Agricultural Produce
(Consequential Provisions)(Wales)
Regulations 2001**

Wedi'u gwneud *13 Tachwedd 2001*
Yn dod i rym *yn unol ac erthygl 1*

Made *13th November 2001*
Coming into force *in accordance with article 1*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi'i ddynodi(a) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(b) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran 2(2) a enwyd, drwy hyn yn gwneud y rheoliadau canlynol:-

The National Assembly for Wales, being designated(a) for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972(b) in relation to the common agricultural policy of the European Community, in exercise of the powers conferred on it by the said section 2(2), hereby makes the following Regulations:-

Teitl, cychwyn a dehongli

1.-(1) Teitl y rheoliadau hyn yw Rheoliadau Dileu'r Bwrdd Ymyrraeth ar gyfer Cynnyrch Amaethyddol (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru) 2001 a deuant i rym ar y dyddiad y bydd dileu'r Bwrdd Ymyrraeth yn effeithiol(c).

Title, commencement and interpretation

1.-(1) These Regulations shall be cited as The Abolition of the Intervention Board for Agricultural Produce (Consequential Provisions) (Wales) Regulations 2001 and shall come into force on the day on which the abolition of the Intervention Board takes effect(c).

(2) At ddibenion paragraff (1) ystyr "y Bwrdd Ymyrraeth" yw'r Bwrdd Ymyrraeth ar gyfer Cynnyrch Amaethyddol a sefydlwyd o dan adran 6(1) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972.

(2) For the purposes of paragraph (1) "the Intervention Board" means the Intervention Board for Agricultural Produce established under section 6(1) of the European Communities Act 1972.

**Darpariaethau canlyniadol i ddileu'r Bwrdd
Ymyrraeth ar gyfer Cynnyrch Amaethyddol**

2.-(1) Yn Rheoliadau Cynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Modwleiddio) (Cymru) 2000(c) -

- (a) yn rheoliad 3(1) -
- (i) caiff y diffiniadau o "Bwrdd Ymyrraeth" a "cynlluniau'r Bwrdd" eu dileu;
- (ii) yn y diffiniad o "y swm perthnasol" caiff y

**Amendments consequential to the abolition of the
Intervention Board for Agricultural Produce**

2.-(1) In the Common Agricultural Policy Support Schemes (Modulation)(Wales) Regulations 2000(c) -

- (a) in regulation 3(1) -
- (i) the definitions of "Board schemes" and "Intervention Board" shall be deleted;
- (ii) in the definition of "the relevant amount"

(a) Yn rhinwedd Gorchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) (Rhif 3) 1999 (O.S. 1999 / 2788).

(b) 1972 p.68.

(c) Dileuwyd y Bwrdd Ymyrraeth ar 15 Tachwedd 2001. Hwnnw felly yw'r dyddiad y daw y Rheoliadau hyn i rym.

(ch) O.S. 2000 / 3294 (Cy.216).

(a) By virtue of the European Communities (Designation)(No.3) Order 1999 (S.I. 1999 / 2788).

(b) 1972 c.68.

(c) The Intervention Board was abolished on 15th November 2001 which is therefore the date these regulations come into force.

(d) S.I. 2000 / 3294 (W.216).

- geiriau “; neu, yn ôl fel y digwydd, y Bwrdd Ymyrraeth,” eu dileu;
- (b) yn rheoliad 4(1), caiff y geiriau “; neu’r Bwrdd Ymyrraeth (yn achos taliadau o dan gynlluniau’r Bwrdd),” eu dileu.
- (2) Yn Rheoliadau Llaeth Ysgol (Cymru) 2001(a)-
- (a) Yn rheoliad 2(1) -
- (i) Caiff y diffiniad o “y Bwrdd” ei ddileu;
- (ii) Yn y diffiniad o “cynllun cymhorthdal y Gymuned Ewropeaidd” caiff y geiriau “ac yn cael ei weinyddu ym Mhrydain Fawr gan y Bwrdd” eu dileu;
- (iii) Yn y diffiniad o “sefydliad addysgol cymwys”, yn lle’r geiriau “gyda’r Bwrdd” rhoddir y geiriau “gyda’r Cynulliad Cenedlaethol”.
- (b) Yn rheoliad 4(2) yn lle unrhyw gyfeiriad at “y Bwrdd” rhoddir “y Cynulliad Cenedlaethol”.
- (c) Yn rheoliad 6, caiff y geiriau “gan y Cynulliad Cenedlaethol”, eu dileu ac yn lle’r geiriau “y Bwrdd yn gweithredu fel asiant i’r Cynulliad Cenedlaethol” rhoddir y geiriau “y Cynulliad Cenedlaethol neu ei asiantau.”.
- (ch) Yn rheoliad 7, yn lle’r geiriau “Y Bwrdd” rhoddir y geiriau “Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu ei asiantau”.
- (3) Yn Rheoliadau’r Premiwm Cigydda (Cymru) 2001(b)-
- (a) yn y rheoliadau canlynol, yn ychwanegol at unrhyw ddiwygiad arall a bennir, yn lle’r gair “Bwrdd” rhoddir y geiriau “Cynulliad Cenedlaethol” -
- (i) yn rheoliad 2(1), yn y diffiniad o “person awdurdodedig”, yn y ddau le y’u gwelir;
- (ii) yn rheoliad 4(1), yn y ddau le y’u gwelir;
- (iii) yn rheoliad 5;
- (iv) yn rheoliad 8(1);
- (v) yn rheoliad 8(6);
- (vi) yn rheoliad 9(1);
- (vii) yn rheoliad 10;
- (viii) yn rheoliad 11;
- (ix) yn rheoliad 13(1);
- (x) yn rheoliad 14, yn y ddau le y’u gwelir;
- (xi) yn rheoliad 15, yn y ddau le y’u gwelir;

(a) O.S. 2001 / 275 (Cy.11).
 (b) O.S 2001 / 1332 (Cy.82).

- the words “or, as the case may be, the Intervention Board” shall be deleted;
- (b) in regulation 4(1), the words “or (in the case of payments under Board schemes) the Intervention Board” shall be deleted.
- (2) In the School Milk (Wales) Regulations 2001(a)-
- (a) In regulation 2(1) -
- (i) The definition of “the Board” shall be deleted;
- (ii) In the definition of “the European Community subsidy scheme” the words “and administered in Great Britain by the Board” shall be deleted;
- (iii) In the definition of “qualifying educational establishment”, for the words “the Board” there shall be substituted the words “the National Assembly”.
- (b) In regulation 4(2) for any reference to “the Board” there shall be substituted “the National Assembly”.
- (c) In regulation 6, the words “by the National Assembly” shall be deleted and for the words “the Board acting as agent of the National Assembly” there shall be substituted the words “the National Assembly or its agents”.
- (d) In regulation 7, for the words “The Board” there shall be substituted the words “The National Assembly or its agents”.
- (3) In the Slaughter Premium (Wales) Regulations 2001(b)-
- (a) in the following regulations, in addition to any other amendment as may be specified, for the words “the Board” there shall be substituted the words “the National Assembly” -
- (i) in regulation 2(1), in the definition of “authorised person”, in both places where they appear;
- (ii) in regulation 4(1), in both places where they appear;
- (iii) in regulation 5;
- (iv) in regulation 8(1);
- (v) in regulation 8(6);
- (vi) in regulation 9(1);
- (vii) in regulation 10;
- (viii) in regulation 11;
- (ix) in regulation 13(1);
- (x) in regulation 14, in both places where they appear;
- (xi) in regulation 15, in both places where they appear;

(a) S.I. 2001 / 275 (W.11).
 (b) S.I 2001 / 1332 (W.82).

- (xii) yn rheoliad 16, yn y ddau le y'u gwelir;
- (xiii) yn rheoliad 17, yn y ddau le y'u gwelir;
- (xiv) yn rheoliad 19(1) yn y lle cyntaf y'u gwelir;
- (xv) yn rheoliad 19(2) yn y ddau le y'u gwelir.

(b) Yn rheoliad 7(2) -

- (i) caiff y geiriau “gan y Bwrdd”, yn y ddau le y'u gwelir, eu dileu;
- (ii) yn is-baragraff (a)(i) ac is-baragraff (b)(i), o flaen y geiriau “yn unol â” rhoddir y geiriau “gan y Bwrdd neu, ar ôl i Reoliadau Dileu'r Bwrdd Ymyrraeth ar gyfer Cynnyrch Amaethyddol (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru) 2001(a) ddod i rym, gan y Cynulliad Cenedlaethol”;
- (iii) yn is-baragraff (a)(ii) ac is-baragraff (b)(ii), o flaen y geiriau “yn unol ag” rhoddir y geiriau “gan y Bwrdd neu, ar ôl i Reoliadau'r Bwrdd Ymyrraeth ar gyfer Cynnyrch Amaethyddol (Dileu) 2001 ddod i rym, gan yr Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion yr Alban neu'r Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, yn ôl fel y digwydd,”;

(c) Yn lle rheoliad 8(3), rhoddir y rheoliad canlynol -

- “(3) Os oes hysbysiad mewn perthynas â pharsel o dir wedi'i gyflwyno o'r blaen -
- (a) gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan baragraff (1) neu o dan unrhyw un o'r darpariaethau a bennir ym mharagraff (5), neu
 - (b) cyn i Reoliadau'r Bwrdd Ymyrraeth ar gyfer Cynnyrch Amaethyddol (Dileu) 2001 ddod i rym, gan y Bwrdd o dan baragraff 1,
- caiff y Cynulliad Cenedlaethol gyflwyno hysbysiad pellach o dan baragraff (1) mewn perthynas ag ef heb iddo fod o'r farn ei fod yn cael ei orbori.”.

(ch) Yn rheoliad 8(4)-

- (i) yn lle'r gair “Bwrdd”, yn y ddau le y mae'n ymddangos, rhodder y geiriau “Cynulliad Cenedlaethol”;
- (ii) yn y drydedd linell, dilëir y geiriau “neu gan y Cynulliad Cenedlaethol”.

- (xii) in regulation 16, in both places where they appear;
- (xiii) in regulation 17, in both places where they appear;
- (xiv) in regulation 19(1) in the first place where they appear;
- (xv) in regulation 19(2) in both places where they appear.

(b) In regulation 7(2) -

- (i) the words “by the Board”, in both places where they appear, shall be deleted;
- (ii) in both sub-paragraph (a)(i) and sub-paragraph (b)(i), before the word “pursuant” there shall be inserted the words “by the Board or, after the coming into force of the Intervention Board for Agricultural Produce (Abolition) Regulations 2001(a), by the National Assembly”;
- (iii) in both sub-paragraph (a)(ii) and sub-paragraph (b)(ii), before the word “pursuant” there shall be inserted the words “by the Board or, after the coming into force of the Intervention Board for Agricultural Produce (Abolition) Regulations 2001, by the Secretary of State, the Scottish Ministers or the Department of Agriculture and Rural Development, as the case may be,”;

(c) For regulation 8(3), there shall be substituted the following regulation -

- “(3) Where a notice in relation to a parcel of land has previously been served -
- (a) by the National Assembly under paragraph (1) or under any of the provisions specified in paragraph (5), or
 - (b) before the coming into force of the Intervention Board for Agricultural Produce (Abolition) Regulations 2001, by the Board under paragraph 1,
- the National Assembly may serve a further notice under paragraph (1) in relation thereto without having formed the opinion that it is being overgrazed.”.

(d) In regulation 8(4) -

- (i) For the words “the Board”, in both places where they appear, there shall be substituted the words “the National Assembly”;
- (ii) In the third line, the words “by the National Assembly” shall be deleted.

(d) Yn rheoliad 19(1) yn lle'r geiriau "bod y Bwrdd", yn yr ail le y cyfeirir at y Bwrdd, rhoddir y geiriau "ei fod".

(e) In regulation 19(1) for the words "the Board", in the second place where they appear, then shall be substituted the word "it".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(a).

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(a).

13 Tachwedd 2001

13th November 2001

John Marek

Dirpwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Deputy Presiding Officer of the National
Assembly

(a) 1998 p.38.

(a) 1998 c.38.

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

2001 Rhif 3680 (Cy.301)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

Rheoliadau Dileu'r Bwrdd
Ymyrraeth ar gyfer Cynnyrch
Amaethyddol (Darpariaethau
Canlyniadol) (Cymru) 2001

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

2001 No. 3680 (W.301)

AGRICULTURE, WALES

The Abolition of the Intervention
Board for Agricultural Produce
(Consequential Provisions)(Wales)
Regulations 2001

© Hawlfraint y Goron 2001

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

£2.00


W/421/11/01

ON

© Crown copyright 2001

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090366-8



9 780110 903668